

Gair bach Bethlehem 4



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 4 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

COLLI DAFYDD HUWS

Trist ydy cofnodi ein bod wedi colli'r awdur Dafydd Huws, Gwaelod-y-garth o'n plith. Bu Dafydd farw ddydd Mercher. Rydyn ni'n cydymdeimlo â'i briod June, a'r ddwy ferch, Catrin ac Eyllt, ac yn anfon ein cofion cynhesaf atyn nhw fel teulu. Yn wreiddiol o Lanberis, bu Dafydd am gyfnod yn athro yng Nghaerdydd. Am dros ddegawd o'r dyddiau cynnar hynny, bu'n adolygydd radio a theledu craff yn 'Y Faner' dan yr enw *Charles Huws*. Fel y colofnydd *Goronwy Jones*, bu ei sylwadau 'Dyn Dŵad' yn destun cryn drafod yn Y Dinesydd. Yn ddiweddarach cyhoeddwyd tair nofel o ddychan "Goronwy Jones" ar fywyd dinesig – 'Dyddiadur Dyn Dŵad', 'Un peth 'di priodi, Peth arall 'di byw' a 'Walia Wigli'. Ymhlith y cyfresi y bu'n sgriptio iddyn nhw, fel awdur llawn amser, roedd *Pobl Y Cwm*, *Mwy Na Phapur Newydd*, *I Dir Drygioni*, *Un Dyn Bach A Rôl a lechyd Da* a darlledwyd addasiadau radio a theledu o *Dyddiadur Dyn Dŵad*. Bydd yn chwith ei gollu o'r sedd gefn yna roedd o'n eistedd ynddi ym Methlehem ac yn fwy chwith fyth ystyried y bwlch enfawr sydd ar ei ôl ar yr aelwyd ychydig ddrysau lawr y ffordd o'r Tŷ Cwrdd yng Ngwaelod-y-garth.

Negeseuon

DIOLCH

Yn ystod y cyfnod rhyfedd ac anghyffredin yma o hunan-ynysu mae'r cyfle i ddweud y gair bach "DIOLCH" wedi dod yn amlach nag erioed wrth i nifer ohonom ni orfod dibynnu ar gymwynaswyr, a DIOLCH amdany'n nhw.

Dyma nghyfle inne i DDIOLCH i chi, Arweinydd ac aelodau eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am fod mor feddylgar ohonon ni yn ystod y dyddiau diwetha' 'ma.

Mae colli chwaer yn ergyd sy'n bylchu'r teulu agosa' ond mae gorfod hepgor y gwasanaeth angladdol, y cyd-gyfarfod, y goflaid, y cydiad llaw a'r hel atgofion yn gwbl afreal ac yn lledu'r bwlch rywsut.

DIOLCH i chi, felly, am helpu i'w lenwi gyda'ch dymuniadau da a'ch geiriau o gysur. Rydym ni, fel teulu, wedi eu gwerthfawrogi bob un. DIOLCH.

Rhiannon Ifans, Yr Eglwys Newydd

Credwch neu beidio daeth cymaint o ddeunydd i law, rhaid aros wythnos arall i gael gweld rhai cyfraniadau! Diolch i bawb.

GAIR O DUBAI

"Gair Bach Bethlehem rhif 3"

(At *Rhodri*). Wedi gwir fwynhau darllen hwn! Braff gweld hen luniau a chlywed hanes o adref. Diolch i ti ac i bawb sy'n cyfrannu. Yn enwedig mewn amser fel hyn, mae'n beth hyfryd darllen am adre. Teimlaf yn bell o adre ar y funud ac mae hwn wir yn helpu!

Cofion cynnes i chi gyd. Gob'itho bo pawb yn iach ac yn saff.

Geraint Passmore, (Dubai/ Radur)

Daeth y negeseuon uchod i law yr wythnos hon. Os hoffech chi gyfarch rhywun, anfonwch air at Ifan ar e-bost i: tycnau@aol.com

YN Y RHIFYN HWN

| | |
|---------------------------------|-------|
| Delwyn, Cydymdeimlo & Ysgol Sul | 2 |
| Moorcroft & Addysgu | 3 |
| Oedfa Sul nesaf | 4 & 5 |
| Y Pasg ym Mhalesteina | 6 |
| Dosbarth derbyn 2008 & Posau | 7 |
| Tripiau Ysgol Sul | 8 |
| Y Co-op a Gair o'r Gwaelod | 9 |
| Pregeth nas pregethwyd | 10 |
| Cerdd Mererid Hopwood | 11 |



Gŵyl Gerddi Cymru Glyn Ebwy, agorodd ar Fai 1af, 1992 – cyrchfan Trip Ysgol Sul Bethlehem y flwyddyn honno. Rhagor o hanesion a lluniau o deithiau'r Ysgol Sul ar dudalen 8

Wel! Helo bawb, a dyma ni eto, “Diwrnod newydd arall” – ond dwi’n siŵr i lot fawr o bobl bydd hi’n ddiwrnod gwmws yr un fath a ddoe ac echdoe. Rhyw fath o “Groundhog Day.” Nawr, i’r rhai ohonoch chi sy ddim yn gyfarwydd a’r ffilm arbennig yna, mae’n dilyn hanes dyn tywydd teledu yn America - Phil Connors, wrth iddo ddeffro bob bore i’r un diwrnod, Chwefror yr ail ! Mae Phil Connors, a bod yn garedig, yn hen “Grump” hunanol, ond o dipyn i beth wrth i bob dydd ail adrodd ei hun, mae’n newid, nes bod Phil y Grump yn darganfod cydymdeimlad, ymwybyddiaeth o gymdeithas, gwerth pobl, gwerth gofal, caredigrwydd a ...ie, Cariad.



Rhyw bythefnos o ail fyw yr un dydd drosodd a throsodd sydd yn y ffilm ffantasiol yma, yn y byd go iawn ry'n ni wedi bod yn “Groundhogo” ers pedair wythnos, ac mae’n siŵr bod 'na bedair wythnos arall i ddod – a hynny er ein lles ni gyd. Oni fyddai’n braf meddwl bod ein cymdeithas, fel Phil Connors, yn gallu newid er gwell, a dala mla’n i’r gofal, a’r caredigrwydd a’r cariad sy’ wedi’w ddangos yn ystod dyddie Groundhog y Feirws yma. Amser a ddengys.

Wel! Helo bawb, a dyma ni eto, “Diwrnod Newydd A.....”

Delwyn

Gweithgaredd Yr Ysgol Sul ar-lein



Bore dydd Sul yn ystod yr Ysgol Sul rhithiol dangosodd Olwen fodel roedd hi wedi adeiladu mas o Lego. Mae yno wy Pasg enfawr a helpa wyau Pasg yn ogystal a’r bedd gwag a’r gwragedd wrth y groes.

**Byddwn yn cyfarfod eto bore dydd
Sul am 10.30 ar-lein.**

Healwen

Rydyn ni'n anfon ein cofion at y canlynol:

- **June Huws, Catrin ac Esyllt** a'r teulu, yng Ngwaelod-y-garth. Fel y cyfeiriwyd ar y dudalen flaen, bu farw Dafydd, ddydd Mercher.
- **Non a Sara**, merched **Carys Puw Williams**, gweddw'r diweddar Barchedig Meurwyn Williams. Bu farw Carys nos Lun, ar ôl treulio rhai misoedd yn yr ysbyty. Roedd yn un o bileri'r byd cerdd dant, yn gantores a hyfforddwraig fedrus a beirniad oedd â pharch mawr iddi. Mae Non a'i theulu'n selogion ein Hysgol Sul ac yn byw yng Nghwaelod-y-garth a Sara a'i theulu yn byw ym Mhentrepoeth.
- Cofion hefyd at **bawb** o'n haelodau a'u teuluoedd sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

Ces wahoddiad i ymuno â'r grŵp hwn ar Facebook lle mae pobl yn rhannu lluniau o bethau maen nhw'n eu trysori. Penderfynais rannu stori fy mowlen Moorcroft ac awgrymodd Heulwen Jones y dylwn ei rhannu gyda chi hefyd.



Yng Ngorffennaf 1994, rhai dyddiau cyn ein priodas, daeth bocs bach cardfwrdd di-nod i'r tŷ yn Alexandra Rd, ac ynddo roedd bowlen a llythyr. Anrheg priodas ydoedd oddi wrth Miss Lilian Edwards a arferai gydweithio gyda fy nhadcu oedd yn ysgolfeistr Ysgol Talybont. Bu Mamgu farw yn 1956 a chadwodd Dad ei air y byddai'n rhoi'r fowlen Moorcroft i Miss Edwards (gan fod ganddi lawer o ddarnau'r casgliad ond nid yr un hwn). Ar ganol yr wythdegau des i weithio i Gaerdydd yng Nglantaf a chwrdd â Mrs Bethan Lewis a ddysgai Ffrangeg yn yr ysgol. Sylweddolom ni bod gennym gysylltiad – roedd Bethan yn nith i Miss Edwards a minnau'n wyres i Blodwen a'i gŵr, HR Evans.

Gadewais Glantaf i fynd i ddysgu yn Rhydfelen yn 1990 a phedair blynedd yn ddiweddarach roeddwn ar fin priodi a dyma Bethan yn galw gyda'r bocs bach gwerthfawr. Chwrddais i erioed â Mamgu achos bu farw flynyddoedd cyn fy ngeni. Roedd derbyn y fowlen Moorcroft yn anrheg priodas oddi wrth Miss Edwards, a oedd erbyn hynny yn ei nawdegau, yn hynod. Clywais sawl gwaith fy mod yn debyg i fam fy nhad o ran pryd a gwedd. Roedd derbyn y fowlen hon a brynwyd ganddi hi ddegawdau ynghynt yn hynod o sbesial. Roedd gan Avril Pickard, yn nyddiau Rhydfelen, gatalog hen greiriau ac ynddo ces wybod mai gwaith y mab oedd y fowlen Moorcroft, nid gwaith y tad, ac felly doedd dim angen taith i'r Antiques Roadshow!

Waeth beth fyddai barn arbenigwyr crochenwaith Moorcroft, i fi mae'n amhrisiadwy ac rwy'n ei thrysori'n fawr



Cofio Babanod 1

Glenys Evans

Mae dechre ysgol am y tro cynta yn gallu bod yn anferth o her, yn enwedig pan fyddwch yn dair oed, yn gwneud diwrnod llawn heb fod wedi bod i'r dosbarth meithrin. Fel hyn o'dd hi i lawer o blant yn fy nosbarth i. Roedd rhai'n poeni dim, heb edrych yn ôl ar eu mamau dagreul, heb sylwi ar wynebaw arswydus y mamau hynny a gerddai o amgylch yr iard gan edrych mewn i bob ffenest o'r dosbarth. Gwelant eu cywion gwerthfawr galongaled yn chwerthin yn braf wrth weld y teganau a fu drwy ddwylo cannoedd. Roedd rhai plant wrth gwrs yn glynu at eu mamau fel y mwncïod bach ar y "Blue planet" a job cas oedd ei dad-gysylltu oddi wrthynt gan ddweud dros fy ysgwydd "Give me a ring in an hour!". Unwaith o'dd y rhieni mas o'r golwg rodd e'n weddol hawdd i dynnu sylw y plentyn bach wrth wneud r'wbeth diddorol iawn fel ffeindio cwpwrdd o ddillad gwisgo lan a ffeindio ffrind i helpu gyda'r colur.

Daeth Marcus i'r dosbarth heb ddangos unrhyw arwydd o ofid. Ffarweliodd a'i fam wynepgoch yn ddi-ffwdan ddigon. Ond pallodd tynnu ei got er bod y dosbarth yn rhy dwym o lawer gyda gwres beraroglus 30 o blant bach bywiog.. Erbyn amser llaeth o'dd ei got dal amdano ac aeth mas i chwarae gan gadw ei bellter a gwylio popeth o'dd pawb arall yn neud. 'Run peth amser cinio, bwyttodd ei ginio ai bwdin heb ypsetio dim ar y sŵn dychrynlyd o'dd yn y neuadd. Cadwodd ei got arno yn y prynhawn er iddo godi stêm wrth chwarae yn y tŷ bach twt.

Yno Marcus o'dd y tad ac yn holi ei "wraig" yn ddigon swta, "Where's my cinio?"

Cafodd yr ateb "In the oven!" oddi wrth Zena fach o Glyncoch o'dd wedi deall yn gyflym hyd a lled ei "gwr".

Gofynnais i Marcus tua chwarter i dri i dynnu ei got gan ei fod yn mynd yn gochach fesul munud. A chefais yr ateb anfarwol "No ffancs, Mrs. Evans... I'm not stopping!"

Cymerodd wythnos iddo dynnu ei got!



Darlleniadau – Luc 23. Adnod 26; Ioan 20. 19 – 29.

Rhoddir sawl enw i'r Sul 1^{af} wedi'r Pasg. Dywedwn yn Gymraeg – 'Sul Y Pasg Bach,' sef y Sul ar ôl dathliadau MAWR Sul y Pasg. Yn Saesneg gelwir e'n 'Low Sunday,' dim cymaint o ddathlu a'r Sul cynt. Yn Eglwysi Uniongred y Dwyrain gelwir e'n 'Sul Tomos' gan mai'r darlleniad o'r Ysgrythur ar y Sul hwn bob amser fyddai Ioan 20. 19 – 29. Iesu'n ymddangos i Tomos. Gan fod yr Eglwys Uniongred, yn dilyn y Calendr Julien, ar Ebrill 19eg y bydd yr Eglwysi hynny yn dathlu'r Pasg eleni. Wn i ddim faint o ddathlu fydd yn cael ei ganiatáu eleni o dan y cyfyngiadau presennol. Ond yn arferol mae dathliadau'r Eglwys Uniongred yn ddathliadau rhyfeddol, lliwgar a bywiog iawn. Anghofia i fyth gael profi'r dathliadau tra ar fy ngwyliau yn Athen yn 1972. Gwefreiddiol oedd gweld y tân gwyllt yn ffrwydro ar ben y bryniau a goleuni'r canhwylau yn disgleirio o'r eglwysi ar drawiad hanner nos, fore Sul y Pasg. Un o gymeriadau Stori'r Pasg oedd Simon o Cyrene. Dros ddeugain mlynedd yn ôl lluniodd 'TJ' y myfyrdod hwn am Simon. Dwi am ei rannu gyda chi, gan ein bod yn y dyddiau dyrys hyn yn dibynnu llawer iawn ar gymwynaswyr caredig.

SIMON O CYRENE

Ble ma' Cyrene?

Faint o ffordd oedd o Gyrene i Gaersalem?

Be' oedd neges Simon yn y ddinas?

Dyna'r math o gwestiynau y lichen ni gael ateb iddynt, Arglwydd.

'Chawn ni ddim. Ar hyn o bryd, 'ta p'un.

Rhyfedd gymaint o gwestiynau nad oes ateb iddynt, nawr.

Ond byddwn yn dyfalu atebion, a thynnu casgliadau.

Anghywir ac anghyfiawn ar dro,

A hynny am mai 'o ran y gwyddom.'

'A chwi a gewch wybod ar ôl hyn,' meddet ti.

Cyngor i bwylllo.

I ni sydd am atebion clou i bopeth,

Cyngor anodd yw hwnna.

Eto gwyddom ei fod yn llawn o ddoethineb grasol.



Un peth a wyddom i sicrwydd,

Ni cheid enw Simon ar ddalennau'r Testament Newydd

Oni bai am ei gymwynas.

A honno yn gymwynas pan oedd gwir angen amdani.

Mae amseriad cymwynas yn ychwanegu ati.

A diolch i'r Drefn,

Ma' cymwynasau a chymwynaswyr fel 'na o hyd.

Urdd anrhydeddus yw urdd y cymwynaswyr.

Mae bod yn un o deulu Simon o Cyrene

Yn anrhydedd a braint.

Nid oes deulu hafal iddo yn unman.

A dyma un teulu na all fyth dyfu'n rhy fawr.

Bydded iddo etifeddu'r ddaear.

Eto, er ei ganmol am gario croes f'Arglwydd i,

Erbyn meddwl, go brin iddo wneud hynny.

A bod yn deg, ni allai, 'all neb.

Mae ein croesau, bawb ohonom,

Fel dy groes di,

Yn bethe personol iawn.
 Ein croesau ni ydynt.
 Ni fedr neb er maint eu cydymdeimlad,
 Eu cario yn ein lle.
 Cymwynas Simon oedd cario coed y groes.
 Rhoddodd ei 'sgwyddau llydan
 O dan yr hyn y gallai afael ynddo.
 Ac mae coed fel 'na yn perthyn i bob croes a chystudd.
 Diolch am y dwylo sy'n awyddus i gydio ynddynt,
 A chymryd oddi arnom, yn awr ein cyni, yr hyn a fedrant.
 Byddai'n llythrennol amhosibl i ni gario'n croes a'r coed.
 Ac mae pob Simon o Cyrene yn waredwr mewn
 amgylchiadau fel'na.
 Bu'r Gwaredwr ei hun yn falch o'r gwaredwr o Gyrene.
 Fe ofynasom ar y dechre ble mae Cyrene?
 Gwyddom bellach.
 Nid tref ddiethr ar gyfandir pell mohoni.
 Mae ar fap Cymru, ymhob tref a phentref;
 Ymhob cwmwd a chymdogaeth.
 Deil i godi pobol o'r un calibr â Simon,
 A'u gosod yn rhagluniaethol ar ein llwybr pan fo cystudd a chroes.



Croes ryfedd gariodd Simon.
 Cywirach fyddai dweud Croes i groeshoeliedig rhyfedd a gariwyd ganddo.
 Blodeuodd ar ei groes –
 Lle annisgwyl i gael blodau, yn wir, yn wir.
 Ni chwerwodd;
 'Na beth mawr yw cadw'n felys.
 Ni ddigiodd wrth y Drefn a Duw.
 'Na wyrth fendigedig.
 Ac mae'r Crist ar ei groes boenus byth oddi ar hynny
 Yn destun 'synnu fyth ar synnu.'
 O dan ein croesau, yn ein profedigaethau,
 Rho i ni y peth hwnnw,
 Y gyfrinach honno a oedd gan Iesu
 Fel y gallwn ddod drwy'r cwbl heb graith na chlwy,
 Yn debyg i'n Harglwydd 'yn fwy na choncwerwyr.'
 Cerddodd Simon o fywyd Iesu wedi cario'r groes i Golgotha.
 Byth oddi ar hynny mae Iesu wedi cynnig cerdded i fywyd
 Pawb o dan eu croesau.
 'Deuwch ataf i bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog A mi a esmwythaf arnoch.'
 Nid cario'r coed a wna ef,
 Ond cario'r groes.

Gweddi - Desmond Tutu

Iesu atgyfodedig, diolchwn i ti
 fod daioni yn gryfach na drygioni;
 fod cariad yn gryfach na chasineb;
 fod goleuni yn gryfach na thywyllwch;
 fod bywyd yn gryfach na marwolaeth,
 a bod buddugoliaeth yn eiddo i ni
 drwy'r hwn sydd yn ein caru. Amen.

Y Pasg a'r Nadolig ydi'r adegau mwy poblogaidd i Gristnogion ymweld â Jerusalem. Mae pererinion o bob cwr o'r byd yn heidio yno yn ystod y ddau gyfnod i weld y llyfeydd o bwys yn hanes bywyd a chroeshoeliad Crist. Tra roeddwn i'n gweithio fues i yno deirgwaith ond gan mai gwneud rhaglenni am y trafferthion yno oedd diben fy ymweliadau ches i fawr o gyfle i fynychu y 'lleoliadau sanctaidd.' Yn 2003 roedd fy ymweliad cyntaf ac fel hyn y bu.

Roedd un o'm cydweithwyr wedi sylwi ar baragraff ym mhapur newydd y 'Guardian' yn sôn am Gymraes o gyffiniau Aberystwyth oedd yn gwneud argraff ar un o sianeli radio America wrth ddarlledu yn fyw o ganol yr helyntion yn Nablus ar y Lan Orllewinol. Anne Gwynne oedd ei henw ac roedd hi'n helpu efo'r gwasanaeth ambiwlans yn y ddinas oedd yn ganolbwynt yr 'Intifada' neu'r gwrthryfel yn erbyn y meddiannu anghyfreithlon. Ar ôl peth turio mi lwyddon ni i gael gafael arni a hithau wedi dychwelyd nôl gartra i'r Porth am seibiant. Yn y cyfnod yma roedd pethau'n danllyd ym Mhalesteina fel y clywais o lygaid y ffynnon pan ymwelais â hi. Roedd hi'n ddynes ddi-ddorol yn ei chwedegau ac ar ôl ymddeol yn gynnar o fod yn rheolwraig cymdeithas adeiladu yn Aberystwyth fe ymwelodd a'i merch oedd yn ddarlithydd ifanc yn un o brifysgolion gorau America, Prifysgol Berkeley yng Nghalifornia. Mae gan y brifysgol yr enw o fod yn radical ac roedd yno gangen gref o gefnogwyr achos y Palestinaid. Roedd ei merch yn un o drefnwyr y gangen ac aeth Anne efo hi i un o'r cyfarfodydd.

Yn hwnnw dangoswyd ffilm o fyddin Israel yr IDF (Israeli Defence Force) yn saethu at griw o blant Palesteinaidd oedd wedi bod yn eu pledu efo cerrig. Mae'n debyg bod y lluniau yn graffig a bod nifer o'r plant wedi eu hanafu os nad eu lladd. Brawychwyd Anne Gwynne a doedd hi ddim yn credu yr hyn a welodd. Dwi ddim wedi gweld dim byd fel yna ar y newyddion adra meddai wrth ei merch, wyt ti'n siŵr nad propaganda oedd hwn'nna? Os dach chi ddim yn fy nghredu mam ewch yno i weld drosoch eich hun oedd yr ateb.

A dyna ddigwyddodd. Aeth i Jerusalem i ddechrau i holi'r awdurdodau. Lol botes medden nhw, propaganda noeth. Teithiodd wedyn i Ramallah i drïo siarad efo Yasser Arafat arweinydd gwleidyddol y Palestinaid. Chafodd hi ddim llwyddiant yn cael gafael arno fo ond tra yno cyfarfu â meddyg ifanc. Os ydach chi isio gweld drosoch eich hun ac am wneud rhywbeth defnyddiol yr un pryd ewch i Nablus i weithio efo'r gwasanaeth ambiwlans. Mae cleifion yn marw yn y 'checkpoints' yno wrth i'r IDF wrthod caniatâd iddyn nhw eu cyrchu i'r ysbyty. Efallai y byddai presenoldeb rhywun o'r Gorllewin yn hwyluso caniatâd meddai wrthi. Ac yno yr aeth Anne Gwynne.

Cytunodd i wneud rhaglen â ni. Bûm yn ei chyfweld a'i ffilmio o gwmpas Aberystwyth. Roedd hi wedi bod yn gweithio ar yr ambiwlansys am dros flwyddyn ac wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau erchyll. Roedd ganddi lygaid am lun a chawsom gopiâu o nifer o'i lluniau llonydd.



Wrth gwrs mae yna o leiaf ddwy ochor i bob stori ac mae hanes y gwrthdaro rhwng yr Israeliaid a'r Palestinaid yn fater cymhleth sydd a'i wreiddiau yn ddwfn yn hanes y Dwyrain Canol a rôl benodol Prydain a Lloyd George. Mae'n rhaid cyfaddef fod tactegau ciaidd yr Israeliaid yn erbyn y Palestinaid yn wrthun ond dydi o chwaith ddim yn help fod nifer o'r gwledydd Arabaidd yn yr ardal – yn cynnwys yr un fwyaf nerthol Iran – yn gwrthod hawl Israel i fodoli.

Roedd Anne Gwynne wedi cytuno i ddod yn ôl i Nablus efo mi a'r dyn camera Rhys Williams. Wrth ddangos ein pasbort ym maes awyr Ben Gurion yn Tel Aviv roedd Rhys a minnau wedi sylwi fod swyddogion wedi mynd ag Anne o'r neilltu. Mae'n siŵr fod yna ryw amryfusedd medden ni wrth ddisgwyl amdani gyda'n hoffer ffilmio wrth y brif fynedfa. Awr yn ddiweddarach, canodd y ffôn bach. Anne oedd yno. Roedden nhw'n gwrthod mynediad iddi ac yn ei halltuduo yn ôl i Lundain.

Mi geision ni ddadlau efo'r awdurdodau ond i ddim pwrpas. Yn y diwedd fe aethom ymlaen hebddi i Jerusalem ac yna Nablus a rhywsut mi lwyddon ni i grafu rhaglen at ei gilydd. Mi ges gerdded rhan o'r Via Dolorosa yn Jerusalem, y llwybr y dywedir i'r Iesu gerdded ar y ffordd i gael ei groeshoelio. Ond yno yn holi barn rhai o'r bobol yn yr Hen Ddinas am y trafferthion oeddwn i. A do mi lwyddais hefyd i ymweld a bryn Calfaria, y man lle digwyddodd yr anfadwaith. Ond eto, yno ar gyfer ffilmio llun panoramig o'r ddinas yr oeddwn.

Ychydig flynyddoedd wedyn cafodd Anne ganiatâd i dychwelyd i Balesteina a chawsom ninnau fynd yno yn ei chwmni i adrodd ei hanes yn llawn. Ond stori arall yw honno.



O'r hyn sydd yn y ffrâm uchod, gyflwynwyd i'r Parchedig Ddr R. Alun Evans, wedi iddo dderbyn aelodau newydd, y daw'r llun ar y chwith, y rhestr enwau a'r gerdd gan Rhys Dafis. 'Does dim angen rhagor o eglurhad!

Rhes gefn: Y Parchedig Ddr. R. Alun Evans, Llyr Owain, Owain Siôn Griffiths.
 Rhes ganol: Carys Angharad Huws, Sioned Catrin Scott, Betsan Mair Thomas, Lown Watts, Enid Ann Evans (Carwyn Huw - ddim yn bresennol.)
 Rhes flaen: Rhodri Owain Lewis, Angharad Gwyneth King, Marged Elin Siôn, Fflon Elain, Rhydian Pedr King.

"Tyngu yr wyf - tra byddwyf byw
 Sut bynnag wyf, le bynnag af,
 Ei ddilyn Ef yn ffyddlon wnaif
 Yn un o hyd o Deulu Duw."
 Rhys Dafis

Deuluoedd! Anfonwch gopi i'r rhai uchod. Gofynnwch iddyn nhw anfon aton ni i ddweud beth maen nhw i gyd yn ei wneud yr wythnos hon!

Posau

1. Agor clo. Defnyddiwch y pump cliw isod i ddod o hyd i'r rhifau i agor y clo



| | |
|-----|---|
| 682 | Mae un o'r rhifau'n gywir ac yn y lle cywir |
| 614 | Mae un o'r rhifau'n gywir ond yn y lle anghywir |
| 206 | Mae dau o'r rhifau'n gywir ond mae'r ddau yn y lle anghywir |
| 738 | Mae pob rhif yn anghywir |
| 380 | Mae un o'r rhifau'n gywir ond yn y lle anghywir |

2. Pos y gwyddau

Gŵydd ar ôl gŵydd, gŵydd o flaen gŵydd, a rhwng pob gwŷdd – gŵydd! Sawl gŵydd sydd yna?

(Atebion ar y dudalen olaf)

Rhyw fis neu ddau yn ôl bellach fe gyhoeddwyd yn y capel y byddai trip Ysgol Sul ar gyfer y plant yn cael ei drefnu ym mis Mai. 'Roedd angen casglu enwau er




Gwarchodfa Adar Slimbridge

mwyn trefnu trafndiaeth ar gyfer y daith, ac yn ôl y disgwyl 'roedd 'na fwrlwm ac edrych 'mlaen mawr ar gyfer y daith i Sŵ Arch Noah ym Mryste. 'Roedd y cyfrif y tro diwethaf i mi holi yn fwy na 60, yn blant a'u rheini, yn awchu am ddiwrnod allan ymysg eu ffrindiau.

Fe wyddom mwyach, yn sgil yr haint, y bydd yn rhaid ail-feddwl ac ail-drefnu, a hynny pan ddaw bywyd yn gyffredinol yn ôl i rhyw fath o batrwm.

Ond fe aeth y sôn am drip Ysgol Sul a mi i chwilio trwy gelloedd y cof am ddyddiau fy mhentyndod a'r troeon rheini yn y Rhyl, Bae Colwyn neu Gaer. Rhyl oedd y ffefryn, wrth reswm, oherwydd bod yno ffair (*Marine Lake*) na welid ei thebyg yn unman yn y byd - llawer iawn mwy na Ffair Llanllyfni, oedd ar stepen ein drws ar y 6ed o Orffennaf bob blwyddyn! Traeth Bae Colwyn a Sŵ Caer oedd yr atyniadau eraill wrth gwrs.



Glyn Ebwy 1992

Ond hefyd daeth i gof y troeon rheini y buom ar dripiâu Ysgol Sul Bethlehem i wlyptiroedd Slimbridge (*llun uchod*) i weld yr adar, i Wyl y Gerddi yng Nglyn Ebwy, (*chwith*) ac i sir Benfro i'r parc hamdden yno. Yno yn y canol y byddai'r Parchedig T J Davies yn ei "shorts" a'i gap gwyn yn mwynhau'r arlwy gymaint os nad mwy na ni'r plant!

Pwy o'ch plith sy'n cofio'r teithiau rheini tybed?

Fe gofias i un peth yn benodol am y daith i'r parc hamdden – ychydig ar ôl i ni gyrraedd yno bum yn ddigon ffôl i dderbyn yr her o fynd ar y llithren ddŵr. Ar ei thop, roedd rhaid eistedd ar sedd fechan blastig, ochr yn ochr a thri arall, ac yna gollwng eich hun i fynd ar fympwy'r dwr nes cyrraedd y gwaelod, gan sgimio ar draws y dwr at ddiwedd y reid.

Wel dyna oedd i fod i ddigwydd, ac yn wir dyna ddigwyddodd i'r tri arall, ond am ryw reswm fe ddaeth fy reid i stop ar waelod y llithren ac yn hytrach na sgimio'r dŵr fe suddais.

Fe suddais, ac fe wlychais hyd at fy nghroen, gan gamu allan o'r dŵr i gymeradwyaeth fyddarol gweddill y giang. 'Roedd oriau lawer i fynd cyn i ni adael am adre, ond trwy lwc daeth achubiaeth o du'r Dr Dafydd Huws. 'Roedd ganddo drywsus glaw sbâr yn ei fag, ac yn hwnnw y bum yn troedio'r parc weddill y dydd – heb arlliw o law yn unman wrth reswm!

'Rwyf wedi cadw draw o bob llithren ddŵr ers hynny!

Rhodri-Gwynn Jones



(chwith) Parc Hamdden Y Deri (Oakwood) lle bu i'r awdur wlychu ei hunan.



Y Warchodfa Adar – gydag un aderyn wedi colli'i blu!

Rhagor o Dripiâu Ysgol Sul y tro nesaf! Llundiau gan Mair John o Langrannog a Phenclacwydd

"Do you have a loyalty card, sir?" "No!" fydd fy ateb bob tro. Dydw i ddim yn un am gario cerdiau teyrngarwch. Y gwir yw, dydw i ddim yn teimlo'n deyrngar iawn i unrhyw siop yn arbennig. Ond mae gen i gerdyn Co-op.



Sbel yn ôl, tra'n gweithio ar y rhaglen "Bro" i S4C, fe es i ymweld â bedd Robert Owen yn y Drenewydd a dysgu ychydig am hanes sefydlu y Mudiad Cydweithredol. Rhaid fod hynny wedi plannu rhyw hedyn yn fy meddwl.

Pan agorodd siop Co-op yn Waungron fe ges gynnig ymuno â cherdyn teyrngarwch y mudiad ac, am unwaith, fe gytunais i gario'r cerdyn bach glas. Roeddwn i'n arfer ymweld â'r siop fach gyfeillgar yn gyson, a chael sgwrs yn Gymraeg gyda sawl aelod o'r staff, cyn i'r amgylchiadau diweddar gyfyngu ar nifer fy nheithiau siopa.

Ta waeth, mae gan y Co-op ei gorsaf radio ei hun sy'n darlledu cerddoriaeth a hysbysebion trwy "speakers" bach yn nenfwd y siopau. Fydda i ddim yn sylwi ar y sŵn fel arfer ond, wythnos d'wethaf, daeth llais dros y radio yn awgrymu y dylai pawb siopa yn feddylgar a pheidio â phrynu yn hunanol - a hynny yn Gymraeg.

Yna aeth y D.J. anweledig yn ei flaen i chwarae hen gân gan y grŵp o'r 80au "Depeche Mode" - cân nad oeddwn i wedi'i chlywed ers dyddiau coleg...



"The grabbing hands

Grab all they can

All to themselves,

After all, it's a competitive world...

Everything counts in large amounts..."

Siawns nad oedd dewis y gân honno yn gwbwl fympwyol. Dwi'n rhyw obeithio fod y D.J. yn anfon neges fach "gydweithredol" gudd trwy'r tonfeddi... ar ran Robert Owen.

"The grabbing hands

Grab all they can..."

GAIR O'R GWAELOD

Colofn cwbl an-olygyddol!

Diolch eto

Mae nifer ein cyfranwyr yn cynyddu fesul wythnos. Diolch i bawb sydd wedi anfon deunydd y tro hwn. Chi y tro nesa?

Clapio

Wyddwn i fawr ddim amdano y noson gyntaf – yr arferiad newydd o fynd allan i gymeradwyo'r holl rai gwrol a gweithgar sydd yn ei chanol hi'n gofalu am eraill yn yr argyfwng presennol.

Yn fuan wedi'r curo dwylo roeddwn yn siarad ar y ffôn â hen ffrind yn Sir Fôn. Ei gwestiwn cyntaf oedd "Ydach chi wedi bod yn clapio?" Mi gredais ei fod yn cyfeirio at yr hen arfer lleol hwnnw o fynd i "glapio wyau" cyn y Pasg. Crwydro o dŷ i dŷ, gyda basged neu dun "National Dried Milk" a chlapar pren, i fegera am wy iâr. Roedd ganddon ni ddwsin neu ddau o ieir yn ein gardd, a doedd mam ddim yn hapus o gwbl mod i'n mynd ag wy oddi ar rai oedd â llai na ni o ieir dodwy! Ond mynd roedden ni, er hynny, i lafarganu:

Clap, Clap, gofyn wy, Bachgen bach ar y plwy; Os gwelwch chi'n dda, ga' i wy?

Gyda'r cyfyngiadau presennol, mae'n weddol sicr na chafodd neb fynd o gwmpas pentrefi Ynys Môn, nac unlle arall, eleni.

Tan tro nesa – Hwyl!

Ifan (tycnau@aol.com)

Cyn weinidog City Church (URC) Caerdydd yw Tom Arthur. Mae wedi ymddeol erbyn hyn ac yn byw yn Nhreganna. Fe bostiodd neges ar FB ychydig ddyddiau'n ôl mewn ymateb i gwestiwn gan gyfaill o'i ddyddiau yn Chicago. Y cwestiwn oedd, beth fydda'i bregeth gobaith i bobol yn nyddiau Cofid-19. Ar ôl darllen ei sylwadau anfonais air o werthfawrogiad ato, ac ymhen dim cefais alwad ganddo ar fideo Whatsapp. Yn ystod y sgwrs awgrymodd y dylwn drosi'r "bregeth" i'r Gymraeg. Rhydd gyfieithiad yw'r canlynol:

Am beth fyddwn i'n pregethu'r Pasg hwn? Mae'r holl fusnes atgyfodiad yma wedi cael ei lurgunio dros y blynyddoedd, ac mae'n anodd goresgyn syniadau a rhagdybiaethau sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn ym meddyliau pobol ein heglwys, a dychwelyd at bwrpas y straeon gwreiddiol.

Paul yw'r unig awdur yn Y Beibl sydd â phrofiad personol o'r atgyfodiad. I Paul, roedd fel cael ei ail-eni, sef ei brofiad ar y ffordd i Ddamascus (Galatiaid 1.15-16, a'r dramateiddio yn Actau 9.3-5), ac fe gysylltodd atgyfodiad â'r profiad o ail-eni trwy fedydd, gan ddefnyddio'r syniad o farw a chael ein cyfodi gyda Christ er mwyn dweud: i Gristnogion, mae marwolaeth yn perthyn i'n gorffennol nid yn ein dyfodol (Rhufeiniad 6.3-7). Mae atgyfodiad i Paul yn ymwneud â newid, nid dilyniant/parhad - dod yn eiddo llwyr "i'r Arglwydd" yn y ffordd rydym yn byw, fel na fydd llawer yn newid pan ddaw marwolaeth, dim ond bydd yr hunan/ego oeddem yn edwino, a Duw yr oll yn oll (Rhufeiniad 14.8).

Onid dyma mae pobl am ei glywed. O'r flwyddyn dot mae pobl wedi ofni'r fath newid trawmatig, ac mae hanes yr eglwys yn dangos bod diwinyddion, bron yn syth ar ôl Paul, wedi dechrau dysgu atgyfodiad fel dilyniant/parhad yn hytrach na newid, felly dechreuwyd holi cwestiynau rhyfedd ynglŷn â sut fyddai darnau cyrff Cristnogion oedd wedi'i bwyta gan lewod yn yr arena yn cael ei rhoi at ei gilydd yn yr atgyfodiad. Dyna beth yw pryder ynghylch beth sy'n mynd i ddigwydd nesa yn hytrach na rhyddhau'r hunan i mewn i bresenoldeb ac ewyllys Duw fel creadur/bod newydd (sef dyna ystyr "iachawdwriaeth" yn Y Beibl).

Roedd Paul yn gwybod y byddai cysur y math yna o obaith yn anodd ei dderbyn gan y rhai sy'n gweld iachawdwriaeth fel achubiaeth bersonol, felly dwedodd yn Philipiaid 2, i weithio tuag at ein hiachawdwriaeth mewn ofn a dychryn. Ein cysur yw bod â meddwl Crist, a byw fel y gwnaeth ef, rhoi ei oroesiad ei hunan yn ail i'w angerdd i rannu ei fywyd gydag eraill, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu rhannu'r groes.

Fe gefais bregeth ddiwedddara cyfaill, a oedd tan yr wythnos ddiwethaf, yn genhadwr yn Nigeria, pregeth ar Cofid-19, yn annog ei braidd i gofio sut y daethon nhw drwyddi adeg Ebola, ac aeth ymlaen i'w sicrhau mai yn y nefoedd y mae'n wir gartref ni, a.y.b.,a.y.b. Rwy'n gwybod bod gan neges fel yna ystyr dwfn yn y diwylliant yna. Dyma bobl, yn wahanol i rai yn ein cymdogaethau Gorllewinol, dosbarth canol, sy'n byw ar yr ymyl, yn byw

bywydau sydd yn rhy fregus i ni eu hamgyffred, lle gall 'comitment' personol olygu risg enfawr, hyd yn oed merthyrdod. Iddyn nhw gall iaith a delweddu bywyd sy'n fwy na fi'n-dod-gynta, gael ei ddathlu mewn caneuon fel "Shall we gather by the river?", dathlu bywyd nad yw'n eiddo i ni ond i Dduw, mewn ffordd sy'n rhoi nerth a dewrder nad i'w weld yn aml ym maestrefi Chicago.

I ni Orllewinwyr, sy'n byw o un l-phone newydd i'r nesa, ar draul y "two-thirds world", ni yn ein byd cymharol ddiogel nad ydym yn gweld anghenion eraill, gall y fath iaith droi'n ddihangfa o realiti, fel pe na bai'r ochr hyn i'r bedd ddim yn cyfri'. Ond creulon yw cysur os yw'n seiliedig ar gelwydd.

Cysur yr ysgrythur yw'r gwirionedd bod yna realiti mwy na ni'n hunain, y gellir ei gyffwrdd yn y math o fyw-er lles-ein-cymdogion sydd wrth wraidd a chalon y ffydd Gristnogol. Byddai'n dda cofio efallai bod yr hyn rydym yn ei ddiode', wedi dod o labordy yn ymchwilio i firsau ar gyfer rhyfel bio-gemegol, canlyniad brawychus ein byd ni-yn-erbyn-nhw. Mae consyryn yr Efengyl am fywyd yn cael ei fyw er mwyn eraill yn sefyll yn ddewr yn wyneb y meddylfryd "ni yn erbyn nhw".

Yr unig gysur i ni yn y pendraw yw byw'r Efengyl. Rhoi ein hunain i eraill, ac mae i hyn ganlyniadau moesegol a gwleidyddol gymdeithasol. Sut ddylen ni fyw nawr? Rwy'n cofio ymateb Martin Luther i rywun a ofynnodd iddo beth fydda fo'n ei wneud tasa fo'n gwybod bod y diwedd yn dod fory, a dwedodd y byddai'n plannu coeden. Gyda Cofid-19, byw er mwyn ein cymdogion yw'r ffordd gywir er mwyn dyfodol y ddynoliaeth. Nid ydym yn ceisio achub ein hunain yn gyntaf, prun ai gawn ein lladd gan y firsau rydym wedi'u creu neu'r cynhesu byd eang rydym yn ei achosi.

Rhaid byw heddiw y dyfodol rydym yn gobeithio amdano. Fe fydd yna bobol yn cronni pethau, neu'n gwneud elw ar gefn yr argyfwng, neu gryfhau eu grym gwleidyddol dros eraill, ac fe fydd eraill yn rhannu'i bywydau heb ddal dim yn ôl er cymaint y risg. Rhaid i ni ddewis ar ba ochr yr ydym. Efallai, pe bawn i yn arwain addoliad ar Sul y Pasg byddwn wedi cael y gynulleidfa i ganu hen emyn Sankey a Moody, "Who is on the Lord's side?" Byddai'n sicr yn well dewis eleni na mwyafrif emynau traddodiadol y Pasg. Ar ddiwedd y dydd, ni all y gobaith y gallwn ei gynnig fod yn obaith i ni'n unig, ond gobaith y bydd ewyllys Duw yn cael ei wneud ar y ddaear. Am unwaith. Trwom ni. Fyddai pregethu unrhyw beth arall yn twyllo pobl gydag Efengyl ffals.

ODLAU'R GARTH

Chi limrigwyr, benillwyr, a 'ballu – anfonwch rywbeth!



Mae cryn drafod wedi bod ar y gerdd gomisiynwyd gan S4C oddi wrth Y Prifardd Mererid Hopwood i godi calonnau yn ystod y cyfnod rhyfeddol o anodd hwn. Rydyn ni wedi cael caniatâd y sianel i gyhoeddi'r gerdd gyflawn y tro hwn. Felly dyma hi. (Mae'r fersiwn fyrrach fu ar y teledu ohoni wedi bod ar sawl cyfrwng cymdeithasol ac i'w gweld ar:

<https://youtu.be/yNboFOKZaZ4>

Mae dail y coed, mae border bach,
Mae murmur yn yr awel,
Mae un friallen fach ar lawr,
Mae cân am benrhyn tawel.

Mae parabl plant, mae munud fach,
Mae llun y gallwn glywed,
Mae ifanc, ffôl, mae Elen fwyn,
Mae aros, ac mae myned.

Mae dau gi bach, mae tiwn Sam Tân,
Mae môr a phadell ffrio,
Mae Mistar Duw, mae gwely gwag,
Mae 'O na bawn i yno'.

Mae grug ac eithin, nawfed ton,
Mae storm a'i sŵn, mae curlaw,
Mae gwên un enaid hoff cytûn,
Mae canol llonydd, distaw.

Mae paid bod ofn, mae calon lân,
Mae cwm lle'r wyt ti'n Arglwydd,
Mae man lle'r oeda'r haf yn hir –
Mae teyrnas diniweidrwydd.

Mae ger y drws a blodau tlws,
Mae eiddil heb eiddilwch,
Mae pishyn, pishyn, fenws fain,
A thacsi i Gwm Tawelwch.

Mae carreg wen, mae lan y môr,
Mae eto'r teim yn tyfu,
Mae jee ceffyl bach, a chamfa wen,
Mae esgid fach yn gwasgu.

Mae Far-roc-awê, mae 'yma o hyd',
Mae'r enw 'sneb yn 'i gofio,
Mae'r môr yn fur, mae'r bur hoff bau,
Mae'r anthem 'gad mi lithro'.

Mae dawns y glaw, mae'r nos yn hir,
Mae cloc y tipian araf,
Mae pen y lôn, mae cael yn ôl,
Ac wedi'r awr dywyllaf

Dros gymoedd cul a moelni maith,
Dros greigiau pen y mynydd,
Drwy niwl y wawr ... mae haul ar fryn -
daw dydd, daw bore newydd.

A thrwy'r holl ymynysu hwn,
Mae calon Cymru'n curo,
A'i phobl fel y tir dan draed
Drwy'r saib yn ailegino.

Ac os o hyd mae llinell bell
Ddi-derfyn ... gwn fod darfod,
Mae dyddiau blin yn dod i ben,
Mae amser gwell yn dyfod.

Atebion y Posau

1. Agor y clo: 042
2. Pos y gwyddau – 3 gŵydd

*Awydd anfon cyfraniad
i'r rhifyn nesaf?
Does dim rhaid iddo fod yn faith.*

*Erbyn Ebrill 22^{ain} at:
tycnau@aol.com*